Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

29 Gorffennaf 2019

Annwyl gyfaill

Atal hunanladdiad

Rwy'n ysgrifennu parthed ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i atal hunanladdiad.

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, **Busnes Pawb: Adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru**, ym mis Rhagfyr 2018. Ar ran y Cadeirydd a'r Pwyllgor, hoffwn ddiolch i chi am gyfrannu at y gwaith hwn. Roedd eich mewnbwn yn ddefnyddiol iawn ac fe gododd nifer o faterion pwysig i ni eu hystyried.

Diben ein hymchwiliad oedd amgyffred beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd o ran atal hunanladdiad, a deall lle mae angen gweithredu er mwyn hybu'r newid a'r gwelliannau sydd eu hangen i wrthdroi tuedd sy'n peri gofid o ran hunanladdiadau ledled Cymru. Yn ein hadroddiad, gwnaethom 31 o argymhellion i Lywodraeth Cymru a fyddai, o'u gweithredu, yn gam mawr ymlaen.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ymateb** i'r adroddiad ym mis Ionawr 2019, a nodwyd gennym bryd hynny y byddem yn dilyn hynt nifer o'r argymhellion hyn dros y chwech i 12 mis nesaf.

Hoffem gael eich barn am ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ac, yn benodol, a oes unrhyw dystiolaeth newydd neu ddiwygiedig yr hoffech ei darparu i lywio unrhyw waith craffu y bydd y Pwyllgor am ei wneud yn y dyfodol.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cyflwyno'ch tystiolaeth erbyn 14 Hydref 2019, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol - **seneddhealth@cynulliad.cymru**. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm clercio ar y cyfeiriad e-bost uchod.

Cofion cynnes



Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565